Adnodd 14b.

# Senario 2

Mae Kayleigh a Matt yn 14 oed. Maent wedi bod yn mynd efo'i gilydd ers 2 fis. Mi wnaeth Kayleigh anfon neges testun at Matt yn gofyn iddo anfon llun noeth ati. Roedd y neges yn dweud, "Baswn i rili yn licio gweld chdi, dim ond yn dy groen! Os nei di anfon llun nai ddangos i chi beth sgen i"! Mi wnaeth Matt ateb gan ddweud nad oedd eisiau anfon hun-lun noeth ac nad oedd yn meddwl ei fod yn syniad da. Mi wnaeth Kayleigh anfon neges testun yn ôl at Matt, a oedd yn dweud "Wow! Ti'm yn hogyn normal os ti'm yn neud. Mae pawb yn anfon y lluniau yma, paid bod yn weirdo! Mae fy rhei i yn barod – chdi gynta!"





1. Beth ydych chi'n meddwl neith Matt nesaf?
2. Beth ydych chi'n meddwl fydd canlyniad y penderfyniad yma?
3. Sut wnaeth Kayleigh geisio perswadio Matt i anfon y llun?
4. Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i Matt?

HEDDLU POLICE
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government